Adroddiad Ysgol Rhiwlas
Adroddiad Mis Chwefror at gyfer Llais Ogwan Chwefror

Bu mis Ionawr yn fis llwyddianus iawn yn Ysgol Rhiwlas, yn enwedig o ran chwaraeon. Profodd Cynan Jones lwyddiant yng nghystadlaethau gymnasteg 'inclusive' yn ddiweddar ym Mangor. hefyd Iori Price a gafodd lwyddiant ym Mhencampwriaeth gymnasteg Gogledd Cymru. O ganlyniad enillodd wobr y gymnast gwrywaidd gorau yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar mewn seremoni wobrwyo yn Venue Cymru.

Hefyd cafodd Oliver Warland lwyddiant mewn ras trawsgwlad diweddar. Rydym yn hynod falch o lwyddiant y tri.

Cafwyd ymweliad diddorol gan PC Becca Davies i siarad gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn seiliedig ar ddiogelwch yn y gymuned.

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn brysur yn dysgu am hanes a bywyd trigolion Ynysoedd y Marshall y tymor hwn ac yn ei gymharu gyda eu bywyd hwy yng Nghymru - o ganlyniad daeth Dr Alex Plows i'r ysgol i drafod y prosiect y mae'n rhan ohono. Bydd gwaith disgyblion Ysgol Rhiwlas yn cael ei rannu gyda gwaith disgyblion mewn ysgol yn y Marshall Islands. Mae hefyd gynlluniau ar y gweill i gysylltu trwy gyswllt y we. - Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar am y cynllun cyffrous hwn a sut y bydd yn datblygu.

Er fod y tywydd wedi bod yn wael y mis hwn mae gwaith yn parhau i fynd ymlaen yn 'polytunnel' a'r ardd. Cawsom letys ffres ym mis Ionawr ac mae'r moron a'r nionod yn dod ymlaen yn dda!

Bu Anna Williams o Ymddiredolaeth Bywyd Gwyllt a Pharc Cenedlaethol Eryri yn yr ysgol yn cydweithio gyda'r disgyblion ar blanu gwrych er mwyn denu bywyd gwyllt. Aeth Cyfnod Allweddol 2 ar ymweliad a gerddi botaneg Treborth fel rhan o gynllun 'Bywyd Gwyllt o fewn y pedwar tymor' gan 'Elfennau Gwyllt'. Byddwn yn ymweld eto yn y Gwanwyn a'r Haf er mwyn cymharu y canlyniadau a gweld sut mae'r amgylchedd wedi newid yn ystod y tymhorau.

Mae'r plant yn gwylio cystadleuaeth y chwe gwlad yn eiddgar ac yn enwedig o falch o lwyddiant 'ffrind' i'r ysgol - Josh Navidi sydd bellach yn datblygu ar ei lwyddiant yn gemau yr Hydref yn y chwe gwlad. Mae Josh yn gefnder i Mrs Llinos Goosey sydd yn athrawes yn yr ysgol!

Hoffem fel ysgol hefyd ddiolch i Coop Llanrug am roi hamper fwyd i ni fel ysgol ei 'rafflo' - nid yw'r tocynnau i gyd wedi eu dychwelyd ar hyn o bryd felly nid ydym yn sicr o'r cyfanswm a godwyd.

Cynhelir bingo Pasg yn yr ysgol ar y 22ain o Fawrth er mwyn codi arian i'r ysgol. - croeso i bawb